# Y Cwtsh Cymreig

Cefnogaeth gyda'r Gymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar Mai 2024

## TEULU CYMRU

Mae Llywodraeth Cymru newydd lansio Teulu Cymru, brand newydd sydd dod â'i brif ymgyrchoedd gofal plant ynghyd â rhianta o dan yr un tô.

Mae Teulu Cymru yma i rieni, gofalwyr a theuluoedd plant 0-18 oed, ac yn eu cyfeirio i'r cyfeiriad cywir ar gyfer gwahanol ffynonellau cymorth ymarferol ac ariannol:

Edrychwch yma am fwy o wybodaeth:
https://www.gov.wales/teulu-cymru

Mae tudalen hefyd yn cynnig rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar gyfer cefnogi plant gyda'r Gymraeg:
https://www.llyw.cymru/cymraeg-addysg

## PWYSIGRWYDD Y GYMRAEG YN Y BLYNYDDOEDD CYNNAR A GOFAL PLANT

GAN GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

Ymunwch mewn sesiwn gyda siaradwyr dylanwadol yn trafod pwysigrwydd y Gymraeg yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plan. Dewch i glywed gan rai pobl ysbrydoledig yn y sector am y Gymraeg gan gynnwys y dylanwadwr Instagram, Doctor Cymraeg. Bydd cyfle hefyd i chi ofyn cwestiynau a rhannu unrhyw brofiadau sydd gyda chi.


## Digwyddiad ar-lein i ymarferwyr

**Llun 20.5.2024**
**18:30 - 20:00**

**Cliciwch yma i archebu lle!**

# Y Cwtsh Cymreig

**MAY/ MAI 2024**



## CARU'N CYNEFIN - DATHLU DIWYLLIANT CYMRU

## EISTEDDFOD YR URDD MAI 27 - MEHEFIN 1 2024

### BETH YW'R EISTEDDFOD?

Bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, un o wyliau teithiol ieuenctid mwyaf Ewrop sy'n denu tua 90,000 o ymwelwyr bob blwyddyn, yn cael ei chynnal unwaith eto yn ystod wythnos Sulgwyn ddiwedd mis Mai. Mae'n cael ei gynnal mewn lleoliad gwahanol yng Nghymru bob blwyddyn. Yn 2024, bydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ymweld â Maldwyn.

Mae'r Eisteddfod yn ŵyl gystadleuol gyda dros 15,000 o blant a phobl ifanc dan 25 oed yn cystadlu yn ystod yr wythnos mewn cystadlaethau amrywiol fel canu, dawnsio a pherfformio.

Mae'r cystadleuwyr yma yn griw elitaidd allan o tua 40,000 o gystadleuwyr ar draws Cymru sydd wedi ennill eu lle yn dilyn rowndiau lleol a rhanbarthol a gynhaliwyd ym misoedd y gwanwyn yn arwain at yr Eisteddfod.

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth:
https://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/

### GEIRIAU ALLWEDDOL - KEY WORDS

**Rydw i yn** - I am

**Byddaf yn** - I will be

**Rwy'n edrych ymlaen at** - I'm looking forward to

**perfformio** - performing
**cystadlu** - competing
**canu** - singing
**dawnsio** - dancing
**llefaru** - reciting
**actio** - acting
**ennill** - win
**ysgrifennu** - writing
**bod ar y llwyfan** - being on stage
**cefnogi** - support
**gwersylla** - camping

### DEWCH I GANU!
### COME AND SING!

Cliciwch yma i wrando ar gân 'Hei Mr Urdd!'

Click here to listen to the song 'Hei Mr Urdd!'






Sesiynau newydd i deuluoedd yn Llangennech, Penygroes & Pontyberem!

Cofrestrwch yma https://www.ycwtsh.com/







New family sessions in Llangennech, Penygroes & Pontyberem!

Click here to book https://www.ycwtsh.com/